Disgrifiad Swydd

Teitl swydd:	Rheolwr Datblygu Cronfa MARINE Cymru
Yn atebol i:	Pennaeth Grantiau ac Incwm
Grŵp(iau):	Buddsoddi
Gweithgareddau:	Grantiau, Cynhyrchu Incwm
Cyflog:	**£36,019 yn cynyddu i £38,009 pro rata'r flwyddyn** ar ôl cwblhau cyfnod prawf o chwe mis yn llwyddiannus.
Lleoliad:	Mae gan CGGC bolisi gweithio'n hyblyg ar waith, sy'n golygu y gall ein pobl weithio cyfran o'u hamser yn ein swyddfeydd neu o bell (gan gynnwys gartref). Rydyn ni'n fudiad Cymru gyfan gyda chanolfannau swyddfa yn Aberystwyth, Caerdydd a'r Rhyl y gall staff eu defnyddio. Bydd angen mynychu rhai digwyddiadau staff a galwadau gwaith penodol yn ein swyddfeydd.
Gwyliau blynyddol:	25 diwrnod y flwyddyn, ynghyd â gwyliau banc, a phum diwrnod drwy ddisgresiwn pro rata
Teithio:	Rydyn ni'n ffafrio defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus; pan na fydd hyn yn gyfleus, caiff staff ddefnyddio'u cerbydau eu hunain neu ddefnyddio'r system rhentu ceir. Telir cyfraddau fesul milltir yn unol â'r cyfraddau a argymhellir gan Gyllid y Wlad

Cyllidir y swydd hon gan Lywodraeth Cymru. Mae Cronfa MARINE Cymru yn fenter gan Bartneriaeth Moroedd ac Arfordiroedd Cymru.

Partneriaeth Moroedd ac Arfordiroedd Cymru
Wales Coasts and Seas Partnership

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Oriau: 35 awr yr wythnos; yn hyblyg.

Pensiwn: Bydd y swydd yn cael cyfraniad o 9% o'r cyflog blynyddol i gynllun pensiwn cymeradwy CGGC.

Categori Iaith Gymraeg: Dymunol.

DIBEN

O fewn ein grŵp Buddsoddi, chi fydd yn arwain datblygiad cronfa newydd gyffrous, Cronfa MARINE Cymru.
Bydd Cronfa MARINE Cymru yn denu buddsoddiadau gan ddatblygwyr yng Nghymru a fydd wedyn yn cael eu buddsoddi mewn rhaglenni a phrosiectau sy'n galluogi, cynnal a gwella gwydnwch ecosystemau morol ac arfordirol dros yr hirdymor, gan hwyluso'r gwaith o ddarparu buddion ehangach i unigolion, cymunedau a busnesau. Bydd hyn yn cefnogi ein gweledigaeth am foroedd Cymreig glân, iach, diogel, cynhyrchiol a biolegol-amrywiol.

PRIF DDYLETSWYDDAU

- Cydlynu mewnbwn partneriaid i mewn i ddatblygiad y Gronfa
- Cysylltu â datblygwyr a rhanddeiliaid eraill a rheoli'r berthynas â nhw
- Mynd ati'n weithredol i ddenu buddsoddwyr posibl a meithrin cydberthnasau
- Dylunio'r gyfres o ddeunyddiau i gefnogi'r broses llunio grantiau a'i rhoi ar waith - gan gynnwys dogfen ganllaw'r holl gynllun
- Arwain y gwaith ar greu brandio a chyhoeddusrwydd i'r gronfa – gan weithio mewn partneriaeth â Cyfoeth Naturiol Cymru
- Arwain y gwaith o recriwtio aelodau ar gyfer y grŵp llywio a'r panel llunio grantiau
- Rhoi diweddariadau rheolaidd i'r grŵp llywio a rhanddeiliaid ehangach
- Gweithio o fewn y fframwaith llywodraethu i sicrhau tegwch a thryloywder

Nid yw hon yn rhestr gyflawn. Efallai y bydd gofyn i ddeiliad y swydd gyflawni dyletswyddau ychwanegol o dro i dro neu yn ôl y gofyn, wrth i anghenion y gwasanaeth neu'r mudiad ddatblygu.

MANYLEB YR UNIGOLYN

Mae'r canlynol yn sgiliau hanfodol (ni fydd ymgeiswyr sy'n methu ag arddangos y rhain yn cael eu rhoi ar y rhestr fer)

1. Profiad o weithredu, rheoli a gwneud gwelliannau parhaus i systemau a phrosesau gweithredol effeithlon, gan gynnwys datblygiad system ymgeisio am grantiau a system reoli grantiau ar-lein
2. Gwybodaeth am feysydd polisi Morol allweddol yng Nghymru a dulliau darparu trwy brosiectau
3. Gallu gweithio ar liwt eich hun a chydag agwedd hyblyg tuag at addasu cynlluniau gwaith ar fyr rybudd i fodloni newidiadau mewn blaenoriaethau
4. Profiad o reoli cydberthnasau â rhanddeiliaid, a chael cymaint â phosibl o gymorth gan randdeiliaid/partneriaid
5. Profiad o roi cyngor a hyfforddiant i fudiadau ar arferion gorau wrth gyllido a rheoli prosiectau
6. Profiad o weithio gyda rhanddeiliaid o sectorau amrywiol a hyder i weithio gyda nhw
7. Sgiliau TG da
8. Ymrwymiad i hyrwyddo diwylliant lle y caiff gwahaniaethu ei ddileu ac i ddarparu amgylchedd cyfle cyfartal, lle y mae pawb yn cydnabod y cyfraniad cadarnhaol y gall gweithlu a chymuned amrywiol ei wneud

Mae'r canlynol yn *sgiliau dymunol* (byddai'n well bod â'r sgiliau yma, a byddent yn cyfoethogi'r cais)

1. Byddai sgiliau yn y Gymraeg yn ddefnyddiol; disgwylir i'r ymgeisydd a benodir ddangos ymwybyddiaeth o Safonau'r Gymraeg a chefnogi'r gwaith o gydymffurfio â nhw.
2. Sgiliau Rheoli Prosiect.

Cyllidir y swydd hon gan Lywodraeth Cymru. Mae Cronfa MARINE Cymru yn fenter gan Bartneriaeth Moroedd ac Arfordiroedd Cymru.

Partneriaeth Moroedd ac Arfordiroedd Cymru
Wales Coasts and Seas Partnership

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government